

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Proffil Cymru yn y Byd The Profile of Wales in the World

Q11 Denise Idris Jones: Will the First Minister make a statement on the profile of Wales in the world? OAQ1312(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): St David's Day continues to be an important element of our ongoing efforts to promote Wales in the world, with activities this year taking place in Hong Kong, New York, Brussels, Sydney, Paris, London, Moscow and Wales. The increased profile of Wales achieved through such activities provides the platform from which we can pursue our economic and wider agenda internationally.

C11 Denise Idris Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am broffil Cymru yn y byd? OAQ1312(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae Dydd Gŵyl Dewi yn parhau i fod yn elfen bwysig o'n hymdrechion parhaus i hybu Cymru yn y byd, ac yr oedd gweithgareddau eleni yn digwydd yn Hong Kong, Efrog Newydd, Brwsel, Sydney, Paris, Llundain, Moscow a Chymru. Mae cynyddu proffil Cymru drwy gyfrwng gweithgareddau o'r fath yn darparu'r llwyfan y gallwn ddilyn ein hagenda economaidd ac ehangach arno'n rhyngwladol.

Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn The Older People's Strategy

Q12 Catherine Thomas: Will the First Minister provide an update on the older people's strategy? OAQ1319(FM)

The First Minister: Good progress continues to be made with the implementation of our strategy for older people. A Bill for a commissioner for older people in Wales has recently secured its Third Reading in the House of Lords and the national service framework for older people will be launched on 20 March.

C12 Catherine Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth ar gyfer pobl hŷn? OAQ1319(FM)

Y Prif Weinidog: Parheir i wneud cynnydd da gyda gweithredu'n strategaeth ar gyfer pobl hŷn. Cafodd Mesur y comisiynydd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru ei Drydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi yn ddiweddar, a bydd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn yn cael ei lansio ar 20 Mawrth.

Blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru The Welsh Assembly Government's Priorities

Q13 Irene James: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly

C13 Irene James: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am brif flaenoriaethau

Government's key priorities over the next 12 months? OAQ1313(FM)

Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ1313(FM)

The First Minister: The Government's objectives for the full Assembly term have been set out in 'Wales: A Better Country'. Priorities for progress include access to free school breakfasts, reducing the size of the quango state, continuing to reduce NHS waiting lists and implementing the Government of Wales Bill.

Y Prif Weinidog: Mae amcanion y Llywodraeth ar gyfer tymor llawn y Cynulliad wedi'u nodi yn 'Cymru: Gwlad Well'. Ymhlith y blaenoriaethau ar gyfer cynnydd mae mynediad i frecwast am ddim mewn ysgolion, gostwng maint y wladwriaeth gwango, parhau i ostwng rhestrau aros y GIG a rhoi Mesur Llywodraeth Cymru ar waith.

Dyfodol Ysbytai Cymunedol The Future of Community Hospitals

Q14 Jenny Randerson: Will the First Minister make a statement on the future of community hospitals? OAQ1307(FM)

C14 Jenny Randerson: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol ysbytai cymunedol? OAQ1307(FM)

The First Minister: 'Designed for Life', our 10-year strategy for delivering health services in Wales, identifies the important future role of community hospitals in Wales. Their role will include developments in diagnostic treatments and new models of care, ensuring that treatment takes place near or in the home.

Y Prif Weinidog: Mae 'Cynllun Oes', ein strategaeth 10 mlynedd ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru, yn cydnabod rôl bwysig ysbytai cymuned yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd eu rôl yn cynnwys datblygiadau mewn triniaethau diagnostig a modelau gofal newydd, fydd yn sicrhau bod triniaethau'n digwydd yn agos at neu yng nghartrefi pobl.

Airlink Gogledd Cymru North Wales Airlink

Q15 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on the North Wales Airlink? OAQ1317(FM)

C15 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Airlink Gogledd Cymru? OAQ1317(FM)

The First Minister: Andrew Davies, the Minister for Economic Development and Transport, announced plans in December 2004 for such an air service based on a 'double daily' service between Cardiff and Valley, which will facilitate day return journeys, and help to bridge the perceived north-south divide.

Y Prif Weinidog: Bu i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, wneud datganiad ym mis Rhagfyr 2004 am wasanaeth awyr o'r fath yn seiliedig ar ddau wasanaeth y dydd rhwng Caerdydd a'r Fali, a fydd yn hwyluso teithiau undydd, ac yn helpu i bontio'r bwlch honedig rhwng y de a'r gogledd.